Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Sut mae'r system bleidleisio yn gweithio

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Sut mae'r system bleidleisio yn gweithio**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Etholiadau'r Senedd** .......... **4**

**Sut mae'n gweithio** .......... **5**

**Etholiadau Senedd y DU** .......... **8**


# Etholiadau'r Senedd



Mae etholiadau'r Senedd yn newid.



Mae nifer o Aelodau'r Senedd yn cynyddu, o 60 i 96.



Fe fydd Cymru'n cael ei rhannu'n 16 ardal bleidleisio – sydd yn cael eu galw yn **etholaethau**.



Fe fydd pob ardal bleidleisio yn dewis 6 Aelod Senedd.

# Sut mae'n gweithio



Mae'r ffordd mae pleidleisiau'n cael eu cyfrif yn etholiadau'r Senedd yn newid.




Mae pawb yng Nghymru yn cael 1 bleidlais.




Rydych chi'n gallu pleidleisio dros **blaid wleidyddol** neu **ymgeisydd annibynnol**.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sy'n rhannu'r un syniadau am sut i redeg y wlad.




Mae **ymgeiswyr annibynnol** yn bobl sydd ddim yn perthyn i blaid wleidyddol.



Mae 6 sedd i'w hennill ym mhob ardal bleidleisio.



Fe fydd y blaid wleidyddol neu'r ymgeisydd annibynnol gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill y sedd gyntaf.




Yna mae mathemateg yn cael ei ddefnyddio i weld pwy sy'n ennill gweddill y seddi.



Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn bod yn siŵr bod nifer y seddi mae plaid yn eu hennill yn cyfateb i'r ffordd mae pobl yn pleidleisio.



Er enghraifft, os ydy hanner y bobl mewn ardal bleidleisio yn pleidleisio dros Blaid A – fe fydd Plaid A yn ennill hanner y seddi – 3 sedd.



Mae'r seddi eraill yn cael eu rhannu rhwng pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i gyd-fynd â'r gyfran o bleidleisiau maen nhw wedi eu cael.




Mae etholiadau Senedd y DU yn defnyddio system bleidleisio wahanol. Mae'n cael ei galw yn system Cyntaf i'r Felin.



Mae gennych chi 1 bleidlais. Rydych chi'n pleidleisio dros yr ymgeisydd rydych chi eisiau i gynrychioli eich ardal bleidleisio.



Mae'r ymgeiswyr gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill.



Rydych chi'n gallu gwylio'r fideo YouTube yma i ddarganfod mwy am systemau pleidleisio: [youtube.com/watch?v=o6c3hBigp94](https://youtube.com/watch?v=o6c3hBigp94)